**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Trwy e-bost

25 Hydref 2018

Annwyl Nick

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Amcangyfrifon 2019-20**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref 2018 a oedd yn ymateb i gais y Pwyllgor Cyllid am addasiadau i'ch amcangyfrif ar gyfer 2019-20.

<u>Costau ynghylch y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)</u>
Mae'r Pwyllgor yn derbyn y bydd yr amserlen ar gyfer y Bil yn effeithio ar eich amcangyfrif o gostau yn y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, o ystyried rôl ddeuol y Pwyllgor wrth ddwyn y Bil yn ei flaen ac wrth drafod eich Amcangyfrif, mae'n hanfodol bod y costau hyn yn cael eu cynnwys er lles tryloywder a chyflawnrwydd. Felly, disgwyliwn i'r Amcangyfrif fod yn glir ynghylch y lefel uchaf o arian y gallai fod ei angen arnoch yn 2019-20 drwy gyllideb atodol.

<u>Cais am gynnydd o 3.8 y cant mewn adnoddau ar gyfer 2019-20</u>
Mae'r Pwyllgor yn nodi'ch sylwadau ar gyfrifo'r cynnydd disgwyliedig yng Ngrant Bloc Cymru a'ch barn fod amcangyfrif Comisiwn y Cynulliad ar gyfer twf yn y grant bloc yn seiliedig ar fethodoleg ddiffygiol. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf na ddylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol ddisgwyl cynnydd awtomatig o flwyddyn i flwyddyn, o ystyried y pwysau ariannol cynyddol yn y sector cyhoeddus.

Gan gydnabod yr effaith ar eich gweithgareddau arfaethedig o ran gwella ac ymchwilio, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu cyfyngu ar gynnydd yn yr arian a roddir i gyrff a ariennir yn uniongyrchol i 1.67 y cant yn 2019-20. Byddwn yn

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

gwneud gwaith pellach ar briodoldeb cysylltu cyllidebau â chynnydd yng Ngrant Bloc Cymru yn y dyfodol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno Amcangyfrif diwygiedig ar gyfer 2019-20, gan ymgorffori'r newidiadau hyn, erbyn dydd Gwener 2 Tachwedd.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid